
The Electoral Commission




# Gwybodaeth ar gyfer Swyddogion Canlyniadau: Helpu pobl anabl i bleidleisio





# Beth sydd yn y llyfryn hwn




**Tudalen 3** Cyflwyniad




**Tudalen 5** Beth wnaethom ni



**Tudalen 6** Beth ddywedodd pobl



**Tudalen 8** Beth sy'n digwydd nawr?





**Tudalen 10** Sut i roi gwybod i ni beth rydych chi'n ei feddwl



## Cyflwyniad

Dylai pob pleidleisiwr gael yr hawl i bleidleisio'n **annibynnol** ac yn gyfrinachol. Mae gwneud rhywbeth yn annibynnol yn golygu gwneud rhywbeth ar eich pen eich hun.




Mae'n bosibl y bydd angen cymorth neu gyfarpar ychwanegol ar bobl anabl er mwyn gallu pleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol.

The Electoral Commission

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am **etholiadau** yn y DU. Etholiad yw pan fydd pobl yn dewis pwy fydd yn arweinwyr iddynt trwy bleidleisio.



Mae'r Comisiwn Etholiadol yn rhoi gwybodaeth i **Swyddogion Canlyniadau.**

Swyddogion Canlyniadau yw'r bobl sy'n gyfrifol am sut mae etholiadau'n cael eu cynnal. Yng Ngogledd Iwerddon fe'u gelwir yn Brif Swyddogion Etholiadol.




Mae'r wybodaeth hon er mwyn i'r Swyddogion Canlyniadau wybod beth ddylent ei wneud i helpu pobl anabl i bleidleisio.




Rydym wedi diweddaru'r wybodaeth rydym yn rhannu gyda Swyddogion Canlyniadau. Mae hyn yn dweud wrthyn nhw sut i gefnogi pleidleiswyr anabl mewn **gorsafoedd pleidleisio.**




Gorsaf Pleidleisio yw'r lleoliad lle rydych chi'n mynd i bleidleisio mewn etholiad.



Hoffem wybod eich barn ar y wybodaeth ddiwygiedig rydym ni'n ei rhoi i Swyddogion Canlyniadau.

## Beth wnaethom ni



Fe wnaethon ni siarad â llawer o bobl, elusennau a grwpiau.

Gofynnon ni iddyn nhw am y pethau oedd yn ei gwneud hi'n anodd i bobl anabl bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio.




Gofynnon ni iddyn nhw ddweud wrthym ni sut i’w gwneud hi’n haws i bobl anabl bleidleisio.




Fe wnaethon ni ddefnyddio'r hyn a ddywedodd pobl wrthym i newid y wybodaeth rydyn ni'n ei rhoi i Swyddogion Canlyniadau.



Rydym yn gobeithio y bydd yn rhoi’r holl wybodaeth sydd ei angen arnynt i helpu pobl anabl.

## Beth ddywedodd pobl




Rydym wedi meddwl am yr hyn a ddywedodd pobl ac wedi gwneud newidiadau i’r wybodaeth rydym yn ei roi i Swyddogion Canlyniadau.



Dyma rai enghreifftiau o’r hyn a ddywedodd pobl a’r hyn rydym ni wedi’i newid:



1. Gwell hyfforddiant i bobl sy’n gweithio mewn gorsafoedd pleidleisio i helpu pobl anabl i bleidleisio



2. Dylai Swyddogion Canlyniadau siarad â mwy o bobl anabl i ofyn iddyn nhw pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw.




3. Rhagor o enghreifftiau o gyfarpar i helpu pleidleiswyr dall a rhannol ddall




Er ein bod eisoes wedi gwneud rhai newidiadau, mae rhagor y mae angen i ni ei wneud o hyd.



Cyn yr etholiadau ym mis Mai 2026, byddwn yn ceisio gwneud y canlynol:

- Creu rhagor o wybodaeth y gall Swyddogion Canlyniadau ei defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol




- Creu rhagor o wybodaeth y gall Swyddogion Canlyniadau ei defnyddio am yr hyn y mae pobl eraill yn ei wneud a'r cyfarpar maen nhw'n ei ddarparu.



Pob blwyddyn byddwn yn edrych ar ein gwybodaeth a'n cymorth. Byddwn yn ei ddiweddaru ac yn ychwanegu ato i'w wella'n barhaus.



Gall pobl sy'n cymryd rhan yn yr arolwg hwn ddweud pa mor hawdd neu anodd oedd hi iddyn nhw bleidleisio.



Gallent hefyd ddweud beth maent yn feddwl am y cymorth ychwanegol a gawsant i bleidleisio.




## Beth sy'n digwydd nawr?

Darllenwch y wybodaeth ddiwygiedig ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yma.

Mae hefyd ar gael ar ffurf hawdd ei ddarllen.



Hoffem wybod eich barn ar y wybodaeth ddiwygiedig rydym ni'n ei rhoi i Swyddogion Canlyniadau.




Byddwn yn ystyried yr hyn y mae pobl yn ei feddwl ac yn gwneud rhagor o newidiadau i baratoi ar gyfer yr etholiadau ym mis Mai 2026.




## Sut i roi gwybod i ni eich barn

Dyma'r fersiwn hawdd ei darllen o'r cwestiynau am y wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau**.




Gallwch ddarganfod rhagor o fformatau o’r cwestiynau ar ein gwefan.




Gallwch hefyd ateb y cwestiynau ar-lein. Nid yw y rhain ar ffurf hawdd ei ddarllen.




Mae'n ddefnyddiol gwybod, os ydych chi'n ateb y cwestiynau ar-lein, na allwch chi arbed eich atebion a dod yn ôl atynt yn ddiweddarach.



Gallwch argraffu'r arolwg a'i hanfon atom:

Tîm Cydlynu, Strategaeth a Deddfwriaeth
Y Comisiwn Etholiadol/The Electoral Commission, 3 Bunhill Row
Llundain EC1Y 8YZ




Neu gallwch anfon yr arolwg atom ar e-bost gan ddefnyddio:

Accessibilityconsultation@electoralcommission.org.uk




Rhowch wybod i ni yr hyn rydych yn ei feddwl erbyn ddydd Sul 26 Hydref2025.




Os ydych yn ateb 'Na' neu 'Ddim yn gwybod' i unrhyw un o'r cwestiynau, rhowch wybod i ni beth ddylai newid.

Gallem ddiweddaru'r wybodaeth y tro nesaf.



Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg neu os oes angen cymorth arnoch i’w lenwi, gallwch gysylltu gyda ni.

Ffoniwch gan ddefnyddio 0333 103 1928.




**Cwestiwn1**

Mae llawer o bethau yn ei wneud yn anodd i bobl anabl bleidleisio mewn **gorsaf pleidleisio**.

Gorsaf pleidleisio yw’r lleoliad lle rydych chi’n pleidleisio mewn etholiad.



A oes digon o wybodaeth i Swyddogion Canlyniadau ddweud wrthyn nhw beth yw'r pethau hyn? Dewiswch un ateb:

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes
- [ ] Ddim yn gwybod




Os ateboch chi na, rhowch wybod i ni pa wybodaeth arall dylem ei hychwanegu yma:




**Cwestiwn2**

Mae llawer o gyfreithiau sy'n cefnogi pobl anabl.



A oes ddigon o wybodaeth i Swyddogion Canlyniadau i ddeall pam eu bod angen cefnogi pleidleiswyr anabl




☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Ddim yn gwybod

Os ateboch chi na, rhowch wybod i ni pa wybodaeth arall dylem ei hychwanegu yma:




**Cwestiwn3**

Gall gwybodaeth a chyfarpar helpu pobl anabl i bleidleisio yn annibynnol ac yn gyfrinachol.



Ydych yn meddwl bod y diweddariadau yn ddichonadwy i helpu Swyddogion Canlyniadau i gefnogi pleidleiswyr anabl i bleidleisio yn annibynnol ac yn gyfrinachol?




☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn gwybod

Os ateboch chi na, rhowch wybod i ni pa wybodaeth arall dylem ei hychwanegu yma:



**Cwestiwn4**

Dylai Swyddogion Canlyniadau rhoi gwybod i bobl yr hyn fyddai'n digwydd mewn gorsaf pleidleisio a pha gymorth y gallent ei chael.



A oes digon o wybodaeth i Swyddogion Canlyniadau er mwyn iddyn nhw sicrhau bod pleidleiswyr yn gwybod am y gefnogaeth y gallant ei chael?




☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Ddim yn gwybod

Os ateboch chi na, rhowch wybod i ni pa wybodaeth arall dylem ei hychwanegu yma:



**Cwestiwn5**

Ar ôl pob etholiad, dylai Swyddogion Canlyniadau edrych ar yr hyn a weithiodd yn dda i helpu bobl anabl i bleidleisio.




Dylent feddwl am yr hyn allai newid i’w wneud yn haws i bobl anabl i bleidleisio yn y dyfodol.




A yw'r wybodaeth yn rhoi popeth sydd ei angen ar Swyddogion Canlyniadau i allu:

- Edrychwch ar yr hyn a weithiodd yn dda i bobl anabl bleidleisio
- Meddwl am beth allai newid i’w wneud yn haws i bobl anabl pleidleisio y tro nesaf




- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy
- [ ] Ddim yn gwybod

Os ateboch chi na, rhowch wybod i ni pa wybodaeth arall dylem ei hychwanegu yma:



Nodwch unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y wybodaeth ddiwygiedig ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yma:



## Amdanoch chi

Hoffem wybod dipyn bach amdanoch chi i sicrhau ein bod yn clywed gan amrywiaeth o bobl.



Dewiswch y blwch sy'n eich disgrifio chi orau




Os ydych yn cwblhau'r ffurflen ar ran rywun arall, dewiswch y blwch sy'n eu disgrifio nhw orau



- [ ] Aelod o’r cyhoedd
- [ ] Swyddog Canlyniadau
- [ ] Swyddog Cofrestru Etholiadol
- [ ] Gweinyddwr etholiadol
- [ ] Elusen neu sefydliad trydydd sector
- [ ] Corff cyhoeddus
- [ ] Cymdeithas fasnach neu gorff cynrychioliadol
- [ ] Adran Llywodraeth
- [ ] Plaid wleidyddol
- [ ] Grŵp ymgyrchu gwleidyddol
- [ ] Deiliad presennol neu ddeiliad darpar swydd etholedig
- [ ] Busnes preifat Arall.
- [ ] Nodwch:




## Manylion cyswllt

Os ydych yn rhannu eich manylion cyswllt, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi am yr arolwg hwn.

Nid oes rhaid i chi rannu'r wybodaeth hon gyda i ni os nad ydych yn dymuno gwneud.




Eich enw




Eich cyfeiriad e-bost:




Eich rhif ffôn :